Estyn

# Arweiniad i Arolygwyr

## Beth rydym yn ei arolygu

Ysgolion a gynhelir ac UCDau –
ar gyfer arolygiadau o fis Medi 2022



estyn.gov.wales

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cynnwys


**Cyflwyniad i 'Beth rydym yn ei arolygu' .......... 1**

**Gwerthuso pob maes arolygu .......... 2**

**Ynglŷn â'r ysgol neu'r uned cyfeirio disgyblion (UCD) .......... 2**

**Trosolwg .......... 3**

**Argymhellion .......... 3**

**Beth sy'n digwydd nesaf? .......... 4**

**Sail dystiolaeth yr arolygiad .......... 4**

**Meysydd arolygu .......... 5**

**Maes arolygu 1: Dysgu .......... 5**

Safonau a chynnydd mewn dysgu a medrau .......... 5

**Maes arolygu 2: Lles ac agweddau at ddysgu .......... 7**

2.1 Lles .......... 7

2.2 Agweddau at ddysgu .......... 8

**Maes arolygu 3: Addysgu a phrofiadau dysgu .......... 9**

3.1 Ehangder, cydbwysedd a phriodoldeb cwricwlwm yr ysgol .......... 9

3.2 Addysgu ac asesu .......... 11

**Maes arolygu 4: Gofal, cymorth ac arweiniad .......... 12**

4.1 Datblygiad personol (gan gynnwys datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol, a darparu cymorth dysgu) .......... 12

4.2 Diogelu .......... 14

**Maes arolygu 5: Arweinyddiaeth a rheolaeth .......... 15**

5.1 Ansawdd ac effeithiolrwydd arweinwyr a rheolwyr .......... 15

5.2 Prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant .......... 17

5.3 Dysgu proffesiynol .......... 18

## Cyflwyniad i 'Beth rydym yn ei arolygu'

Mae'r llawlyfr hwn yn amlinellu'r hyn y mae angen i arolygwyr ei ystyried wrth werthuso'r pum maes arolygu mewn ysgolion a gynhelir (ysgolion cynradd, uwchradd, pob oed ac arbennig) ac unedau cyfeirio disgyblion. Mae'n esbonio 'Beth rydym yn ei arolygu'. Dylid ei ddarllen ar y cyd â'r ddogfen 'Sut rydym yn arolygu' sy'n amlinellu ein hymagwedd at arolygu yn sgil pandemig COVID-19.

Mae'r arweiniad yn ddeunydd darllen hanfodol i arolygwyr cofnodol a phob aelod arall o'r tîm arolygu, gan gynnwys yr enwebai. Gallai fod yn ddefnyddiol i ddarparwyr hefyd i gefnogi eu dealltwriaeth o'r arweiniad arolygu. Mae llawlyfr ar wahân sy'n esbonio'r broses a'r fethodoleg arolygu, sef 'Sut rydym yn arolygu'.

Mae'r pum maes arolygu wedi'u hamlinellu isod.

**Meysydd arolygu**

**MA1 Dysgu**

- 1.1 Safonau a chynnydd cyffredinol

**MA2 Lles ac agweddau at ddysgu**

- 2.1 Lles
- 2.2 Agweddau at ddysgu

**MA3 Addysgu a phrofiadau dysgu**

- 3.1 Ehangder, cydbwysedd a phriodoldeb y cwricwlwm
- 3.2 Addysgu ac asesu

**MA4 Gofal, cymorth ac arweiniad**

- 4.1 Datblygiad personol
- 4.2 Diogelu

**MA5 Arweinyddiaeth a rheolaeth**

- 5.1 Ansawdd ac effeithiolrwydd arweinwyr a rheolwyr
- 5.2 Prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant
- 5.3 Dysgu proffesiynol

Mae rhagor o wybodaeth am arolygiadau ar gael ar ein gwefan www.estyn.llyw.cymru

## Gwerthuso pob maes arolygu

Ni fydd timau arolygu'n rhoi graddau cyffredinol ar gyfer pob maes arolygu. Fodd bynnag, byddant yn gwerthuso darpariaeth yr ysgol neu'r UCD yn gadarn ac yn drylwyr, ynghyd â'i heffaith ar ddysgu a lles disgyblion.

Bydd arolygwyr bob amser yn cynnwys gwerthusiadau clir mewn perthynas â'r gofynion adrodd ym mhob maes arolygu, fel sydd i'w gweld yn y llawlyfr hwn. Fodd bynnag, gall yr hyn y mae arolygwyr yn adrodd arno ym mhob maes arolygu amrywio yn ôl arwyddocâd cymharol yr hyn y maent yn ei ddarganfod ym mhob ysgol neu UCD. Gall arolygwyr adrodd 'drwy eithriad'. Mae hyn yn golygu y gallant adrodd ar rai agweddau pan fydd cryfderau neu wendidau penodol yn unig.

Pan fydd arolygwyr yn nodi arfer ddiddorol neu arloesol sy'n haeddu cael ei rhannu'n ehangach, byddant yn gwahodd yr ysgol i lunio astudiaeth achos. Rydym yn arddangos ystod o'r astudiaethau achos hyn ar ein gwefan.

Pan fydd arolygwyr yn nodi diffygion difrifol mewn un neu fwy o feysydd arolygu, bydd angen lefel statudol o weithgarwch dilynol ar yr ysgol neu'r UCD, fel arfer (gwelliant sylweddol neu fesurau arbennig). Mewn ychydig o achosion lle mae arolygwyr wedi rhoi ystyriaeth ofalus ond wedi gwrthod gwelliant sylweddol a mesurau arbennig, gallant benderfynu bod angen monitro'r ddarpariaeth drwy Adolygu gan Estyn. Ceir rhagor o arweiniad ar weithgarwch dilynol yn 'Sut rydym yn arolygu'.

## Ynglŷn â'r ysgol neu'r uned cyfeirio disgyblion (UCD)

Bydd yr adran hon o'r adroddiad yn fyr ac yn cynnwys gwybodaeth gefndir ffeithiol am y darparwr yn unig o'r datganiad CYBLD diweddaraf, ac ni fydd yn cynnwys unrhyw werthusiad o'r ddarpariaeth. Fel arfer, bydd yr arolygydd cofnodol yn cytuno ar gynnwys yr adran hon â'r ysgol neu'r UCD yn ystod yr arolygiad ac yn ystod gwiriad ffeithiol o'r adroddiad drafft cyn ei gyhoeddi. Pan fydd gwahaniaethau pwysig rhwng gwybodaeth ddiweddaraf y CYBLD ac amgylchiadau presennol yr ysgol, dylid trafod y rhain â'r arolygydd cofnodol ac os yw'n briodol, bydd hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr adran hon. Os bydd anghytundeb ynghylch cynnwys yr adran hon, yr arolygydd cofnodol fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch beth i'w gynnwys yn yr adroddiad.

Bydd yr adran hon yn cynnwys gwybodaeth gryno am y canlynol:

- maint, natur a lleoliad yr ysgol neu'r UCD
- cefndir ac amgylchiadau'r disgyblion, fel y gyfran sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim
- cefndir ieithyddol y disgyblion
- unrhyw newidiadau pwysig ers yr arolygiad diwethaf
- unrhyw ffactorau perthnasol eraill, fel cyfran y disgyblion ag anghenion dysgu

ychwanegol[1] neu i ba raddau y mae disgyblion yn gadael neu'n ymuno â'r ddarpariaeth yn ystod y flwyddyn academaidd
- dyddiad penodi'r pennaeth
- mis/blwyddyn yr arolygiad blaenorol o'r ysgol

Os yw ysgol neu UCD yn ysgol arloesi neu'n ysgol dysgu proffesiynol ar hyn o bryd, dylai'r arolygydd cofnodol gynnwys y datganiad isod. Mae hyn yn dangos ei chyfranogiad mewn diwygio addysg, ond nid yw'n gyfwerth â datganiad ar ansawdd ei gwaith: 'Mae'r ysgol yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac ysgolion/UCDau eraill ar hyn o bryd i fwrw ymlaen â datblygiadau sy'n ymwneud â diwygio addysg yng Nghymru.'

Os yw'n briodol, dylai'r cyd-destun gynnwys y frawddeg: 'Mae'r ysgol yn ysgol arweiniol ar gyfer addysg gychwynnol i athrawon'.

Pan fydd cymeriad crefyddol i'r ysgol, dylai'r arolygydd cofnodol gynnwys y datganiad canlynol hefyd: 'Nid yw Estyn yn arolygu addysg grefyddol enwadol na chynnwys crefyddol addoli ar y cyd pan fydd cymeriad crefyddol gan yr ysgol. Yn hytrach, mae'n ofynnol i'r corff llywodraethol drefnu bod addysg grefyddol enwadol ac addoli ar y cyd yn cael eu harolygu ar wahân.'

Bydd yr adran cyd-destun yn cynnwys dolen i https://llyw.cymru/fy-ysgol-leol-canllaw hefyd, sef gwefan â gwybodaeth am ysgolion i rieni/gofalwyr a phobl eraill sydd â diddordeb yn eu hysgol leol.

## Trosolwg

Dylai'r adran hon o'r adroddiad:

- gynnwys trosolwg byr o'r prif ganfyddiadau (400-500 gair) yn amlinellu'r cryfderau allweddol ac unrhyw wendidau pwysig y mae angen eu gwella
- creu'r cysylltiad rhwng deilliannau disgyblion, ansawdd y ddarpariaeth ac effeithiolrwydd arweinyddiaeth
- amlygu themâu bras o'r argymhellion
- bod yn gyson â'r canfyddiadau yng nghorff yr adroddiad
- bod wedi'i hysgrifennu mewn arddull a thôn sy'n hygyrch i'r darllenydd lleyg

## Argymhellion

Dylai'r argymhellion:

- gysylltu'n agos â phrif feysydd gwerthuso'r arweiniad arolygu, gyda'r argymhellion pwysicaf wedi'u hadlewyrchu yn y trosolwg

[1] Rydym wedi defnyddio'r term 'anghenion dysgu ychwanegol', ond rydym yn cydnabod y gellir defnyddio 'anghenion addysgol arbennig' yn y cyd-destun hwn hefyd wrth i'r diwygiadau gael eu rhoi ar waith.

- rhoi syniad clir a phenodol i'r darparwr o'r maes/meysydd i'w (g)wella
- helpu'r darparwr i ddeall yn glir beth ddylai ei wneud i sicrhau'r gwelliannau angenrheidiol
- cael eu hysgrifennu yn nhrefn eu blaenoriaeth, yn hytrach nag yn nhrefn agweddau'r arweiniad

## Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr adran 'beth sy'n digwydd nesaf' yn amlinellu'r hyn y mae angen i'r darparwr ei wneud ar ôl yr arolygiad. Ym mhob achos, bydd angen i arweinwyr ymateb i'r argymhellion drwy roi'r camau gweithredu sydd eu hangen ar waith i wneud y gwelliannau a nodwyd gan y tîm arolygu.

Dylai enghreifftio unrhyw astudiaethau achos arfer ddiddorol neu arloesol rydym wedi gwahodd arweinwyr i'w rhannu.

Bydd yr adran hon yn esbonio a oes angen unrhyw weithgarwch dilynol statudol (mesurau arbennig neu welliant sylweddol) ar y ddarpariaeth, neu a oes angen iddi gael ei hadolygu gan Estyn. Bydd y trosolwg yn rhoi esboniad byr o'r rhesymau am y gweithgarwch dilynol.

## Sail dystiolaeth yr arolygiad

Mae arolygwyr yn defnyddio ystod eang o dystiolaeth i wneud yn siŵr fod eu canfyddiadau'n ddilys, yn gywir ac yn ddibynadwy. Bydd yr adran hon o'r adroddiad yn esbonio'r ffynonellau tystiolaeth y gwnaethant eu defnyddio, yn ogystal ag ystod y gweithgareddau y gwnaethant ymgymryd â nhw yn ystod yr ymweliad.

## Meysydd arolygu

Mae'r adran ganlynol yn esbonio'r hyn y mae pob maes arolygu yn ei gwmpasu a'r hyn y mae angen i'r arolygwyr ei gadw mewn cof wrth werthuso pob un ohonynt.

Mae'r meysydd arolygu wedi'u rhifo o 1 i 5, ond maent yr un mor bwysig â'i gilydd. Ym mhob maes arolygu, ni fydd yr adroddiad yn cwmpasu'r agweddau yn y drefn maent yn ymddangos yn y llawlyfr hwn bob tro. Er enghraifft, ym Maes Arolygu 3 – Addysgu a phrofiadau dysgu, gallai arolygwyr ysgrifennu am addysgu cyn y cwricwlwm, os yw hynny'n gwneud yr adroddiad yn fwy eglur, neu gallant gyfuno elfennau o addysgu a'r cwricwlwm i esbonio eu canfyddiadau, lle bo hynny'n briodol.

Bydd yr adroddiad ar bob maes arolygu rhwng tua 500 gair, fel arfer.

Mae arweiniad atodol ar arolygu agweddau amrywiol ar waith ysgolion ar wefan Estyn: https://www.estyn.llyw.cymru/y-broses-arolygu/arweiniad-arolygu#arweiniadatodol.

## Maes arolygu 1: Dysgu

**Safonau a chynnydd mewn dysgu a medrau**

Ym mhob ysgol ac UCD, wrth werthuso datblygiad gwybodaeth, medrau a chyflawniad disgyblion, dylai arolygwyr seilio eu gwerthusiadau ar dystiolaeth uniongyrchol, er enghraifft o arsylwadau o ddisgyblion mewn gwersi, teithiau dysgu, craffu ar waith disgyblion a thrafodaethau â disgyblion. Bydd arsylwi'n ofalus ar ddisgyblion mewn gwersi a siarad gyda disgyblion yn rhoi tystiolaeth o'u medrau gwrando ac ysgrifennu, eu medrau rhifedd a'u gwybodaeth fathemategol, a'u medrau metawybyddiaeth. Bydd craffu ar waith, gan gynnwys gwaith a grëwyd yn ddigidol, yn rhoi tystiolaeth o ba mor dda y gall disgyblion ysgrifennu a defnyddio eu medrau darllen ac ysgrifennu, a pha mor dda y gallant ddefnyddio eu medrau rhifedd a digidol mewn ystod o bynciau. Lle y bo'n briodol, bydd gwrando ar ddysgwyr yn darllen ar goedd a thrafod y testun â nhw yn helpu arolygwyr i ddeall pa mor dda y gall disgyblion ddarllen er mwyn deall.

Dylai arolygwyr **adrodd** yn glir ar safonau disgyblion o ran:

- gwrando a darllen (yn Gymraeg/Saesneg)
- siarad ac ysgrifennu (yn Gymraeg/Saesneg)
- rhifedd
- medrau digidol

Wrth werthuso **dysgu, cynnydd a chyflawniad** disgyblion, dylai arolygwyr ystyried pa mor dda mae'r ysgol yn ei wneud yn gyffredinol, y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, a'r cynnydd a wneir gan unigolion a grwpiau o ddisgyblion.

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda mae disgyblion:

- yn datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau sy'n briodol i'w cyfnod datblygu a'u mannau cychwyn
- yn gwneud cynnydd ar draws yr ysgol, yn enwedig ers dechrau yn yr ysgol, o un cyfnod i'r llall, ac yn ystod y flwyddyn ysgol
- yn galw dysgu blaenorol i gof, yn caffael gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau newydd, ac yn datblygu eu medrau meddwl a datrys problemau
- yn cymhwyso eu medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth i sefyllfaoedd newydd y tu mewn a'r tu allan i'r ystafell ddosbarth

Dylai arolygwyr werthuso cynnydd pob disgybl ar draws yr ysgol, gan gynnwys cynnydd grwpiau gwahanol o ddysgwyr. Ym mhob ysgol, dylai arolygwyr adrodd ar gynnydd disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. [2] Hefyd, gallai arolygwyr werthuso cynnydd disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol (SIY), disgyblion mwy abl, disgyblion ag amserlenni amgen neu amserlenni llai neu rai sy'n cael eu haddysgu oddi ar y safle yn rheolaidd, a'r rhai o grwpiau ethnig lleiafrifol.

Wrth werthuso **cynnydd grwpiau penodol o ddisgyblion**, dylai arolygwyr ystyried:

- p'un a yw grwpiau penodol o ddisgyblion yn gwneud cymaint o gynnydd ag y gallant mewn perthynas â'u mannau cychwyn
- faint o gynnydd y mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn ei wneud mewn perthynas â'u targedau a'u mannau cychwyn unigol, gan ystyried eu hanghenion unigol
- cynnydd disgyblion â medrau cymharol wan nad ydynt yn cael cymorth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol

Wrth werthuso **medrau disgyblion**, dylai arolygwyr ystyried pa mor dda mae pob disgybl:

- yn datblygu'r medrau sydd eu hangen arnynt i fanteisio ar y cwricwlwm cyfan a dysgu'n effeithiol
- yn meddu ar y medrau llythrennedd (Cymraeg/Saesneg), rhifedd a'r medrau digidol sydd eu hangen arnynt, a'u defnyddio'n hyderus yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm
- yn datblygu eu medrau darllen, meddwl a deall yn raddol
- yn datblygu'r medrau cyfathrebu a phrosesu sydd eu hangen i ymgysylltu'n llwyddiannus â rhyngweithio yn yr ystafell ddosbarth ag athrawon a disgyblion

[2] Rydym yn cydnabod y bydd ysgolion ar wahanol gamau o ran mynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol neu y bydd ganddynt nifer fach o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim/aelwydydd ag incwm isel. Yn ystod y flwyddyn academaidd hon, rydym yn gweithio tuag at ofyniad adrodd ym MA1. Ar hyd tymor yr hydref 2022, byddwn yn dechrau dull cam wrth gam o ran sut rydym yn adrodd ar gynnydd disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai o aelwydydd ag incwm isel. Os gall ysgol ddangos bod ei gwaith ym meysydd arolygu 3 a 4 o fudd i ddisgyblion sydd dan anfantais oherwydd tlodi, bod effaith arweinyddiaeth gref yn y maes hwn yn amlwg ac wedi'i thriongli gan ein tystiolaeth arolygu, byddwn yn ceisio adlewyrchu hyn mewn sylw am sut mae hyn yn cael effaith ar gynnydd. Os bydd ysgolion yn datblygu eu gwaith yn y maes hwn o hyd a'i fod yn rhy gynnar i weld yr effaith lawn, byddwn yn trafod eu dulliau ond ni fyddwn yn adrodd ar gynnydd disgyblion, o reidrwydd.

eraill

- yn datblygu eu medrau artistig, creadigol a chorfforol, er enghraifft drwy waith maes ac astudiaethau amgylcheddol, neu chwarae a dysgu gweithredol yn yr awyr agored
- yn datrys problemau ac yn dod o hyd i atebion amgen a chreadigol
- lle y bo'n briodol, yn datblygu eu medrau technegol a galwedigaethol, er enghraifft yn ystod y cyfnod uwchradd

Mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, ysgolion â dwy ffrwd neu ysgolion dwyieithog, dylai arolygwyr ystyried:

- gallu disgyblion i siarad Cymraeg ac ymateb i Gymraeg llafar, gan ystyried mannau cychwyn disgyblion
- y cynnydd a wna disgyblion o ran datblygu eu medrau cyfathrebu yn Gymraeg drwy eu dysgu ar draws y cwricwlwm ac mewn cyd-destunau mwy anffurfiol

Mewn ysgolion sy'n addysgu **disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol**, dylai arolygwyr werthuso:

- i ba raddau mae disgyblion yn gwneud cynnydd yn unol â'u galluoedd a'u cyfnod datblygu
- i ba raddau mae disgyblion yn datblygu'r medrau sydd eu hangen arnynt i'w paratoi ar gyfer bywyd yn y dyfodol
- pa mor effeithiol mae disgyblion yn datblygu eu medrau cymdeithasol, gan gynnwys eu gallu i ymwneud â disgyblion eraill, staff ac ymwelwyr â'r ysgol

Lle y bo'n briodol, dylai arolygwyr ystyried y gwahaniaethau rhwng cynnydd disgyblion â mathau gwahanol o anghenion dysgu ychwanegol, er enghraifft dysgwyr awtistig, a'r rhai sydd ag anawsterau dysgu dwys a lluosog.

Dylai arolygwyr seilio eu gwerthusiad o ddysgu disgyblion ar dystiolaeth o arsylwadau gwersi, trafodaethau â disgyblion a chraffu ar eu gwaith ysgrifenedig, ymarferol a digidol.  Byddant yn ystyried pa mor dda y mae'r ysgol yn defnyddio ei gwybodaeth ei hun am asesiadau i fonitro a chefnogi cynnydd disgyblion unigol a grwpiau o ddisgyblion ym maes arolygu 3 (addysgu a phrofiadau dysgu) ac ym maes arolygu 5 (arweinyddiaeth a rheolaeth).

## Maes arolygu 2:  Lles ac agweddau at ddysgu

### 2.1 Lles

Dylai arolygwyr ystyried yr ymatebion i'r holiaduron cyn-arolygiad gan ddysgwyr, rhieni, staff a llywodraethwyr yn ofalus, yn enwedig lle mae ymatebwyr yn anghytuno â chwestiynau penodol.  Dylai arolygwyr ystyried tystiolaeth o arsylwadau o ddisgyblion yn rhyngweithio mewn dosbarthiadau, yn ystod amser egwyl ac amser cinio ac o gwmpas yr ysgol, ynghyd â thystiolaeth o drafodaethau cynlluniedig a rhai anffurfiol gydag unigolion a grwpiau.

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda mae pob disgybl:

- yn teimlo’n ddiogel, yn saff, yn rhydd rhag cam-drin corfforol, emosiynol a geiriol, yn cael eu parchu a’u trin yn deg
- yn datblygu eu medrau corfforol a gwneud dewisiadau iach, er enghraifft drwy ymateb yn gadarnhaol i gyfleoedd i ymgymryd ag ystod o weithgareddau corfforol yn ystod gwersi, amser egwyl ac amser cinio, a thrwy glybiau a gweithgareddau ar ôl ysgol
- yn datblygu i fod yn **ddysgwyr uchelgeisiol a medrus** sy’n barod i ddysgu, ac yn dangos **hyder a gwydnwch**, er enghraifft yn y modd maent yn rhyngweithio ag oedolion, ac yn dyfalbarhau â’u gwaith
- yn datblygu’n **ddinasyddion moesegol, gwybodus**, er enghraifft drwy eu hymwybyddiaeth o degwch, cydraddoldeb, cynaliadwyedd a hawliau plant
- yn datblygu’n **gyfranwyr mentrus a chreadigol**, er enghraifft yn y ffordd y maent yn ymdrin â datrys problemau, ac yn archwilio hyn
- yn datblygu eu dealltwriaeth o ddibenion rheolau, gwobrau a chosbau yn yr ysgol, a sut caiff deddfau eu llunio a’u cymhwyso i’r gymdeithas ehangach

Dylai arolygwyr ystyried i ba raddau mae pob disgybl, gan gynnwys y rhai o wahanol grwpiau, fel y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a’r rhai sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, yn barod i ymgymryd â **rolau arweinyddiaeth a chyfrifoldebau**, a chwarae rhan lawn ym mywyd a gwaith yr ysgol, er enghraifft fel aelodau o gyngor yr ysgol, mentoriaid cyfoedion neu lysgenhadon digidol. Dylent ystyried p’un a yw disgyblion yn teimlo bod oedolion yn yr ysgol neu’r UCD yn gwrando ar eu barn ac yn ei hystyried mewn penderfyniadau sy’n effeithio arnynt.

### 2.2 Agweddau at ddysgu

Dylai arolygwyr werthuso i ba raddau mae disgyblion yn datblygu’r **agweddau a’r ymddygiadau allweddol** a fydd yn eu helpu i ddysgu drwy gydol eu bywydau.

Dylai arolygwyr ystyried:

- i ba raddau mae disgyblion yn ddysgwyr uchelgeisiol, hyderus, galluog ac annibynnol
- pa mor dda mae disgyblion yn ymgysylltu â phrofiadau a syniadau newydd ac anghyfarwydd
- lefel diddordeb disgyblion yn eu gwaith
- pa mor barod y mae disgyblion i ymroi i dasgau a’u cwblhau
- pa mor dda maent yn cynnal eu gallu i ganolbwyntio ac yn peidio â gadael i bethau dynnu eu sylw
- pa mor dda mae disgyblion yn dyfalbarhau neu’n chwilio am atebion newydd pan fyddant yn wynebu anawsterau
- i ba raddau mae disgyblion yn gwerthfawrogi ac yn parchu cyfraniadau pobl eraill, er enghraifft drwy ganiatáu i bobl eraill siarad neu fod yn bwyllog pan fydd pobl eraill yn anghytuno â nhw
- pa mor dda mae disgyblion yn gwerthfawrogi ac yn ymateb i adborth gan oedolion a’u cyfoedion
- pa mor effeithiol mae disgyblion yn defnyddio adborth i symud eu dysgu ymlaen

Wrth ystyried **safonau ymddygiad**, dylai arolygwyr arsylwi a yw disgyblion yn ystyriol ac yn uniaethu'n dda â'i gilydd ac oedolion. Dylent ystyried i ba raddau y mae disgyblion yn dangos safonau ymddygiad da:

- mewn gwersi ac wrth symud o gwmpas yr ysgol
- yn ystod gweithgareddau, fel gwaith grŵp a gwasanaethau ysgol gyfan
- yn ystod amser cinio ac amser egwyl neu amser chwarae

Lle y bo'n berthnasol, dylai arolygwyr ystyried i ba raddau mae disgyblion sydd â hanes o gael eu heithrio yn eu hysgol gyfredol neu flaenorol yn dangos ymddygiad ac agweddau gwell at ddysgu. Ni ddylent adrodd ar nifer y gwaharddiadau fel mater o drefn, ond gallant benderfynu gwneud hynny fel eithriad, er enghraifft os yw'n sylweddol uwch na'r gyfradd a welir fel arfer a/neu'n dangos tuedd gynyddol.

Wrth werthuso **cyfranogiad a mwynhad mewn dysgu**, dylai arolygwyr ddefnyddio tystiolaeth o wersi, craffu ar waith disgyblion, trafodaethau â disgyblion ac arsylwi ar eu hymgysylltiad â chlybiau a gweithgareddau amser cinio ac ar ôl ysgol.

Dylai arolygwyr **adrodd** ar nodweddion nodedig o ran presenoldeb yr holl ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, er enghraifft gwelliannau mewn tueddiadau mewn absenoldeb parhaus. (Gweler yr arweiniad atodol ar werthuso presenoldeb am fwy o wybodaeth).

## Maes arolygu 3: Addysgu a phrofiadau dysgu

### 3.1 Ehangder, cydbwysedd a phriodoldeb cwricwlwm yr ysgol

Wrth werthuso **cwricwlwm y darparwr** ac ansawdd y **profiadau dysgu**, dylai arolygwyr ystyried pa mor dda:

- mae'r ysgol neu'r UCD yn diwallu anghenion pob un o'r disgyblion a pha mor dda y mae athrawon ac ymarferwyr eraill yn rhoi ystyriaeth lawn i anghenion dysgu disgyblion unigol wrth gynllunio'r cwricwlwm i'w cynorthwyo i wneud cynnydd, gan gynnwys trwy gyflwyno gwersi unigol a dilyniannau o wersi
- mae'r cwricwlwm eang a chytbwys yn adeiladu'n systematig ac yn gydlynus ar wybodaeth, dealltwriaeth, medrau a phrofiadau presennol disgyblion i sicrhau dilyniant wrth iddynt symud trwy'r ysgol
- mae'r cwricwlwm yn darparu ehangder a dyfnder addas o brofiadau dysgu ar draws yr holl ddisgyblaethau a meysydd dysgu a phrofiad, i ddatblygu eu diddordebau a'u medrau ehangach a chefnogi meddwl yn feirniadol ac arloesi
- mae'r ysgol neu'r UCD yn darparu profiadau dysgu sy'n ysbrydoli disgyblion ac yn codi eu dyheadau am yrfaoedd yn y dyfodol a'r byd gwaith, gan eu helpu i wneud dewisiadau gwybodus
- mae'r ysgol neu'r UCD yn datblygu eu cwricwlwm i adlewyrchu natur eu cyd-destun yn llawn, gan gynnwys dylunio gweithgareddau dysgu sy'n adlewyrchu natur ddiwylliannol, ieithyddol ac amrywiol Cymru a'r byd ehangach, gan gynnwys sut mae'r darparwr yn cynllunio ar gyfer addysgu disgyblion am hanes

a phrofiadau cymunedau Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig a phobl LHDTC+
- mae cwricwlwm yr ysgol neu'r UCD yn darparu ar gyfer grwpiau penodol o ddisgyblion (er enghraifft, mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ffrydiau cyfrwng Cymraeg, gallai hyn gynnwys darpariaeth drochi ar gyfer disgyblion sydd ag ychydig iawn o wybodaeth flaenorol am y Gymraeg; mewn ysgolion lle mae disgyblion yn derbyn rhan o'u haddysg oddi ar y safle neu ar y safle mewn grwpiau anogaeth neu ddarpariaeth cynhwysiant, dylai arolygwyr werthuso pa mor dda mae'r cwricwlwm hwn yn diwallu anghenion y disgyblion hyn)
- mae'r ysgol neu'r UCD yn darparu profiadau dysgu dilys a difyr ar gyfer disgyblion sy'n cynorthwyo ymarferwyr i ddatblygu gwybodaeth a medrau disgyblion
- mae cwricwlwm cynhwysol yn hyrwyddo cyfle teg i'r holl ddisgyblion elwa ar brofiadau, yn enwedig y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim
- mae'r ysgol neu'r UCD yn cynllunio ac yn cyflwyno dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth sy'n cysylltu'n uniongyrchol â'r cwricwlwm cynlluniedig, er enghraifft uchafu'r defnydd o fannau awyr agored a defnyddio ymweliadau i gefnogi datblygiad dealltwriaeth disgyblion o fedr neu faes dysgu penodol

Dylai arolygwyr werthuso cwricwlwm darparwr mewn ffordd hyblyg a chadarnhaol. Dylent ystyried 'Cwricwlwm i Gymru: y daith i weithredu'r cwricwlwm' i ddeall disgwyliadau gan ysgolion wrth baratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru, neu'i weithredu. Ni ddylai arolygwyr ffafrio unrhyw fodel cwricwlwm penodol.

Wrth werthuso cwricwlwm darparwr, dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r ysgol yn sicrhau bod datblygu a chyflwyno eu cwricwlwm yn alinio â'u gweledigaeth ar y cyd ar gyfer y cwricwlwm ac addysgu. Dylai arolygwyr ystyried sut mae'r dewisiadau a wna arweinwyr a staff yn alinio â'r weledigaeth hon i gynorthwyo disgyblion i wneud cynnydd yn eu gwybodaeth, medrau a dealltwriaeth.

Wrth werthuso cwricwlwm yr ysgol neu'r UCD, dylai arolygwyr **adrodd** ar:

- i ba raddau y mae'n galluogi disgyblion i gaffael y wybodaeth a'r medrau angenrheidiol mewn gwrando a darllen, siarad ac ysgrifennu (Cymraeg / Saesneg), rhifedd a medrau digidol i gefnogi eu gwaith a galluogi disgyblion i wneud cynnydd
- i ba raddau y mae'r ddarpariaeth yn galluogi disgyblion i ddefnyddio a chymhwyso eu medrau ar lefel briodol ar draws y cwricwlwm

Wrth werthuso darpariaeth yr ysgol neu'r UCD ar gyfer **datblygu medrau cyfathrebu Cymraeg**, dylai arolygwyr hefyd ystyried:

- i ba raddau y mae gan yr ysgol neu'r UCD ddyheadau uchel ar gyfer datblygu medrau cyfathrebu Cymraeg disgyblion
- graddau ac ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau cyfathrebu Cymraeg mewn gweithgareddau addysgu ffurfiol a sefyllfaoedd anffurfiol
- pa mor dda mae'r darparwr yn hyrwyddo manteision dysgu Cymraeg a bod yn amlieithog
- lle y bo'n briodol, pa mor dda mae cyfran yr addysgu yn Gymraeg yn cyfateb i gategori iaith swyddogol yr ysgol

Wrth werthuso darpariaeth yr ysgol neu'r UCD ar gyfer **addysg bersonol a chymdeithasol**, dylai arolygwyr ystyried pa mor dda mae'n:

- cefnogi datblygiad medrau cymdeithasol ac emosiynol pob disgybl o bob cefndir
- helpu disgyblion i ddatblygu'r medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth sydd eu hangen arnynt i wneud dewisiadau iach o ran eu ffordd o fyw, er enghraifft mewn perthynas â bwyta ac yfed yn iach, camddefnyddio sylweddau, iechyd rhywiol a diogelwch ar-lein
- cefnogi lles ac iechyd meddwl disgyblion, er enghraifft ar ôl cyfnodau pan fydd yr ysgol ar gau i ddisgyblion
- helpu disgyblion i ddeall effaith dewisiadau ffordd o fyw ac ymddygiad ar eu hiechyd meddwl a chorfforol a'u lles nawr ac yn y dyfodol

### 3.2 Addysgu ac asesu

Wrth werthuso addysgu ac asesu, dylai arolygwyr nodi nad oes methodoleg ddewisol y dylai athrawon ei dilyn, ac y gall athrawon ddefnyddio ystod o ddulliau gwahanol dros amser. Yr ystyriaeth allweddol yw p'un a yw arfer yr ystafell ddosbarth yn llwyddiannus o ran ennyn diddordeb pob un o'r disgyblion a datblygu eu medrau, gwybodaeth, dealltwriaeth a phrofiadau i lefel briodol o uchel wrth iddynt symud drwy'r ysgol.

Dylai arolygwyr ystyried:

- pa mor dda mae addysgu ac asesu'n cynorthwyo i gyflwyno cwricwlwm yr ysgol
- i ba raddau mae gan athrawon ac ymarferwyr eraill ddisgwyliadau uchel o bob disgybl
- p'un a yw gwybodaeth bynciol athrawon yn ddigon arbenigol ym meysydd y cwricwlwm y maent yn eu haddysgu
- i ba raddau y mae gan athrawon ac ymarferwyr eraill amcanion clir ar gyfer dysgu disgyblion, ac maent yn defnyddio ystod o ddulliau ac adnoddau i ennyn diddordeb a chefnogi pob disgybl i gyflawni cystal ag y gallant
- pa mor effeithiol mae athrawon yn gwneud eu dosbarthiadau'n lleoedd ysgogol a difyr lle gall pob grŵp o ddisgyblion, gan gynnwys disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai mwyaf a lleiaf abl, ddysgu'n gynhyrchiol
- eglurder esboniadau athrawon ac ymarferwyr, a pha mor dda maent yn cefnogi datblygiad medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion
- pa mor dda mae athrawon ac ymarferwyr eraill yn rheoli ymddygiad disgyblion a ph'un a ydynt yn trin pob disgybl yn gyfartal ac â pharch priodol
- pa mor llwyddiannus y mae athrawon yn defnyddio staff eraill i gefnogi dysgu disgyblion

Wrth werthuso **ansawdd yr adborth** gan athrawon ac ymarferwyr eraill, dylai arolygwyr ystyried pa mor dda mae adborth llafar ac ysgrifenedig yn helpu disgyblion i wybod pa mor dda maent yn ei wneud, beth mae angen iddynt ei wneud i wella, a sut gallant wella eu gwaith.

Dylai arolygwyr ystyried:

- i ba raddau mae athrawon yn datblygu meddwl a dealltwriaeth disgyblion drwy holi medrus a monitro dysgu disgyblion
- pa mor effeithiol mae athrawon ac ymarferwyr eraill yn ymateb i ddysgu disgyblion yn ystod gwersi a gweithgareddau, ac yn addasu eu hymagwedd yn unol â hynny
- pa mor llwyddiannus y mae athrawon yn cynnig cyfleoedd perthnasol, pwrpasol i ddisgyblion asesu eu dysgu eu hunain a'u cyfoedion

Dylai arolygwyr werthuso pa mor dda mae athrawon yn datblygu cyd-ddealltwriaeth o ddilyniant er mwyn sicrhau bod eu **hasesiadau** yn ddilys, yn gywir ac yn ddibynadwy. Wrth werthuso defnydd athrawon o ddeilliannau eu hasesiadau eu hunain a rhai allanol, dylai arolygwyr ystyried pa mor dda maent yn defnyddio'r wybodaeth hon i:

- gynllunio gwersi a'r camau nesaf yn nysgu'r disgyblion
- llywio addysgu a dysgu, a helpu disgyblion i ddeall eu cryfderau a'u meysydd i'w gwella eu hunain
- asesu cynnydd a datblygiad unigolion a grwpiau penodol, gan gynnwys disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r disgyblion hynny sy'n mewn perygl o dangyflawni neu'r rhai sy'n fwy abl

Dylai arolygwyr ystyried sampl o **adroddiadau i rieni** neu ofalwyr i wirio eu bod yn rhoi gwybodaeth briodol i rieni am gynnydd eu plant a sut gallant wneud rhagor o gynnydd yn y dyfodol.

Wrth werthuso addysgu ac asesu, dylai arolygwyr ddefnyddio ystod lawn y dystiolaeth sydd ar gael iddynt. Mae hyn yn debygol o gynnwys tystiolaeth o waith disgyblion (gan gynnwys gwaith a gwblhawyd ar-lein / yn ddigidol), cynllunio athrawon, cofnodion asesu, gwybodaeth am gynnydd disgyblion, trafodaethau â disgyblion a staff, yn ogystal ag arsylwadau gwersi a theithiau dysgu gan aelodau o'r tîm arolygu.

## Maes arolygu 4: Gofal, cymorth ac arweiniad

### 4.1 Datblygiad personol (gan gynnwys datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol, a darparu cymorth dysgu)

Wrth werthuso **datblygiad personol disgyblion**, dylai arolygwyr ystyried pa mor dda mae'r ysgol neu'r UCD:

- yn cefnogi anghenion emosiynol, iechyd a chymdeithasol pob un o'r disgyblion er mwyn iddynt allu ymgysylltu'n gadarnhaol â'r ysgol ac elwa ar y cyfleoedd y mae'n eu cynnig
- yn darparu cymorth tra ystyriol ar gyfer iechyd meddwl a chorfforol a lles disgyblion, er enghraifft yn ystod y pandemig diweddar

Wrth werthuso **darpariaeth cymorth dysgu**, dylai arolygwyr ystyried pa mor dda mae'r ysgol neu'r UCD:

- yn cynnig darpariaeth i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol
- yn olrhain cynnydd y disgyblion hyn mewn perthynas â'r targedau yn eu cynlluniau unigol, a'u cynnydd o'u mannau cychwyn unigol
- yn rhoi sicrwydd fod yr holl ddisgyblion sy'n cael eu haddysgu oddi ar y safle neu ar y safle yn cael cymorth priodol
- yn defnyddio partneriaethau ag ysgolion neu asiantaethau eraill i gynnig cymorth effeithiol i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol neu y gall fod angen cymorth ychwanegol arnynt, er enghraifft disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim trwy gymorth neu fentora gwaith ieuenctid.

Dylai arolygwyr ystyried p'un a yw diwylliant yr ysgol yn hyrwyddo **datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol** disgyblion yn briodol. Ym mhob ysgol nad yw'n cynnig addysg enwadol, dylai arolygwyr ystyried a oes gweithredoedd addoli ar y cyd priodol. Mae trefniadau eraill ar waith i arolygu'r agwedd hon mewn ysgolion enwadol.

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda mae'r ysgol neu'r UCD:

- yn helpu disgyblion, gan gynnwys y rhai o grwpiau gwahanol, fel y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, i ymgymryd â chyfrifoldebau a chyfrannu at yr ysgol a'r gymuned ehangach
- yn helpu disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth o'u hunaniaeth, treftadaeth a diwylliant, a sut maent yn uniaethu â'r gymuned leol a'r byd ehangach
- yn helpu disgyblion i ddeall materion yn ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, ac yn datblygu gwerthoedd ar y cyd, fel parch, empathi, dewrder a thrugaredd
- yn helpu disgyblion i ddeall anghenion a hawliau pobl eraill, yn lleol ac fel aelodau o fyd amrywiol, ac yn hyrwyddo hawliau dynol
- yn herio ystrydebau yn agweddau, dewisiadau a disgwyliadau disgyblion
- yn hyrwyddo egwyddorion sy'n helpu disgyblion i wahaniaethu rhwng da a drwg
- yn cynnig cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddatblygu gwerthoedd cadarn ac archwilio eu credoau ysbrydol a moesegol
- yn datblygu gallu disgyblion i fyfyrio ar gwestiynau sylfaenol, ac ar eu credoau neu eu gwerthoedd eu hunain
- yn annog disgyblion i ddefnyddio'u dychymyg ac ymgysylltu â'r celfyddydau creadigol drwy eu hastudiaethau, gweithgareddau allgyrsiol ac ymweliadau addysgol
- yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn perfformiadau a digwyddiadau, fel unigolion ac mewn grwpiau, i feithrin eu hunanhyder a'u gallu mynegiannol, eu gallu i gyfrannu syniadau creadigol a'u gallu i weithio fel rhan o dîm
- yn cynnig cyfleoedd sy'n annog disgyblion i gymryd rhan yn y celfyddydau ac mewn chwaraeon a hamdden, er enghraifft drwy dimau a thwrnameintiau chwaraeon, yn ystod amser chwarae ac amser egwyl, perfformiadau neu Eisteddfodau

Dylai arolygwyr werthuso pa mor dda y mae'r ysgol neu'r UCD yn cynnig **arweiniad a chyngor** effeithiol a diduedd i ddysgwyr, er enghraifft yn ymwneud â dewisiadau gyrfa yn y dyfodol. Dylent ystyried pa mor dda y mae'r ysgol neu'r UCD yn helpu i baratoi pobl ifanc i ddyheu am gyfleoedd, cyfrifoldebau a phrofiadau bywyd oedolyn, gan gynnwys addysg am yrfaoedd a phrofiadau yn gysylltiedig â gwaith, a phwysigrwydd presenoldeb rheolaidd.

**4.2 Diogelu**

Dylai arolygwyr werthuso ymagwedd yr ysgol neu'r UCD tuag at ddiogelu, ac i ba raddau y mae arweinwyr yn hyrwyddo ac yn cefnogi **diwylliant o ddiogelwch a lles** yng nghymuned yr ysgol neu'r UCD, p'un a yw hynny ar y safle, oddi ar y safle neu ar-lein. Dylent werthuso pa mor dda mae staff a llywodraethwyr yn hyrwyddo'r diwylliant hwn yn y ffordd y maent yn deall ymagweddau diogelu'r ysgol neu'r UCD ac yn eu rhoi ar waith. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi arweiniad statudol penodol ar faterion diogelu, a dylai ysgolion ac UCDau gydymffurfio â'r gofynion hyn.

Yn ystod pob arolygiad, dylai arolygwyr ystyried effeithiolrwydd **gwerthusiad yr ysgol ei hun o'i threfniadau diogelu**, ac unrhyw gamau gweithredu a gynlluniwyd neu a gymerwyd i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion a nodwyd. Dylent wirio a yw'r holl staff wedi cael ystod addas o hyfforddiant diogelu ar lefel briodol. Dylai arolygwyr ystyried darpariaeth yr ysgol i wella presenoldeb ac ymddygiad, lle bo hynny'n briodol.

Dylai arolygwyr ystyried ystod lawn y dystiolaeth sydd ar gael gan gynnwys, er enghraifft, ymatebion disgyblion, rhieni, staff a llywodraethwyr i'r holiaduron cyn-arolygiad. Dylent ystyried a yw disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, a pha mor dda mae disgyblion yn credu y bydd arweinwyr yr ysgol yn cymryd unrhyw bryderon sydd ganddynt am eu diogelwch o ddifrif.

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda mae'r ysgol neu'r UCD:

- yn ymateb i, yn cofnodi ac yn mynd i'r afael ag unrhyw achosion honedig yn ymwneud â bwlio, yn cynnwys y rhai sy'n cynnwys nodweddion gwarchodedig; bwlio yn gysylltiedig â rhagfarn, aflonyddwch a gwahaniaethu, p'un a yw hynny gan staff neu gan gyd-ddisgyblion, yn cynnwys atgyfeirio ac adrodd ymhellach, lle bo'n briodol
- yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion (yn unol â'u cyfnod datblygiad) o ymddygiad sy'n niweidiol yn emosiynol neu'n anniogel, er enghraifft meithrin perthynas amhriodol, aflonyddu rhywiol, gwahaniaethu, bwlio ac eithafiaeth
- yn cadw disgyblion yn ddiogel rhag peryglon radicaleiddio a cham-fanteisio
- yn defnyddio ei threfniadau i hybu a chefnogi diwylliant gwrthfwlio ac ymagwedd gadarnhaol tuag at reoli ymddygiad disgyblion, yn cynnwys defnydd priodol o waharddiadau
- yn defnyddio eu cofnodion i wella a gwerthuso ansawdd y ddarpariaeth

Dylai arolygwyr ystyried **prosesau cadw cofnodion** y darparwr ar gyfer presenoldeb ac absenoldebau o'r ysgol (gallai hyn gynnwys absenoldebau am ddiwrnod ysgol cyfan neu ran ohono). Dylent ystyried pa mor dda mae'r ysgol neu'r UCD yn mynd i'r afael ag absenoliaeth gyson, er enghraifft drwy bartneriaethau â'r gwasanaethau

lles addysg, gwasanaethau gofal cymdeithasol, gwasanaethau iechyd, gwasanaethau ieuenctid neu'r heddlu.

Mewn ysgolion uwchradd ac ysgolion pob oed, dylai arolygwyr ystyried pam nad yw unrhyw ddisgyblion sy'n dechrau yn yr ysgol yn cwblhau'u haddysg yno. Dylai ysgolion ddarparu gwybodaeth am benderfyniadau a wnaed i roi addysg i ddisgyblion heblaw yn yr ysgol a dangos sut caiff y penderfyniadau hyn eu gwneud gyda lles pennaf y disgyblion mewn golwg.

Dylai arolygwyr ystyried **diogelwch cyffredinol adeiladau a safle'r ysgol**, a pha mor dda mae arweinwyr yn hybu ymwybyddiaeth o beryglon i les disgyblion.

Dylai arolygwyr wirio a oes gan yr ysgol neu'r UCD bolisïau, gweithdrefnau a threfniadau adrodd priodol yn ymwneud ag ymyriadau corfforol. Byddant yn archwilio unrhyw ardaloedd sy'n cael eu defnyddio ar gyfer tynnu allan o wersi.

Wrth ystyried **trefniadau diogelu plant**, dylai arolygwyr ystyried:

- nodi a chefnogi plant mewn angen neu sydd mewn perygl o niwed sylweddol, a'r disgyblion hynny sydd dan ofal yr awdurdod lleol
- p'un a yw staff ac arweinwyr ar bob lefel yn gwybod beth i'w wneud os oes ganddynt bryderon am ddisgybl, neu ymddygiad oedolyn tuag at ddisgyblion
- p'un a oes gan yr ysgol weithdrefnau cadarn i sicrhau addasrwydd staff a phobl eraill sy'n dod i gysylltiad â disgyblion, a'i bod yn cadw cofnod cyfredol o'r gwiriadau hynny

Bydd arolygwyr yn **adrodd** ar b'un a yw trefniadau'r ysgol i gadw disgyblion yn ddiogel yn bodloni gofynion ac nad ydynt yn peri pryder. Dylent ystyried a yw'n briodol disgrifio natur unrhyw gryfderau neu wendidau yn yr adroddiad, er enghraifft i leddfu pryderon rhieni. Pan nad yw'r trefniadau'r bodloni gofynion, dylai arolygwyr gynnwys argymhelliad i wella darpariaeth, fel arfer. Ar ôl yr arolygiad, byddwn yn anfon 'llythyr lles' at yr ysgol neu'r UCD a'r awdurdod lleol i geisio sicrwydd eu bod yn mynd i'r afael â'r diffyg(ion) yn briodol.

## Maes arolygu 5: Arweinyddiaeth a rheolaeth

### 5.1 Ansawdd ac effeithiolrwydd arweinwyr a rheolwyr

Dylai arolygwyr werthuso i ba raddau mae arweinwyr a rheolwyr wedi sefydlu a chyfleu **gweledigaeth** glir. Dylent ystyried a oes nodau, amcanion strategol, cynlluniau a pholisïau priodol sy'n canolbwyntio ar wella ansawdd yr addysgu a'r dysgu i fodloni anghenion pob disgybl. Dylai arolygwyr adrodd ar y graddau y mae arweinwyr yn rhoi ystyriaeth briodol i herio effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol. Hefyd, dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod disgyblion yn cyflawni cystal ag y byddai disgwyl fel arfer ar gyfer eu cam datblygu. Dylent ystyried y flaenoriaeth y mae arweinwyr wedi'i rhoi i sicrhau bod yr holl staff yn deall ac yn hyrwyddo **diwylliant diogelu'r** ysgol.

Wrth werthuso **effeithiolrwydd arweinyddiaeth**, dylai arolygwyr ystyried pa mor dda mae arweinwyr ar bob lefel:

- yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer staff, disgyblion a'u hunain
- yn datblygu tîm effeithiol, ymgysylltiol o athrawon a staff cymorth, ac yn mynd ati i hyrwyddo lles staff
- yn modelu ac yn hybu gwerthoedd ac ymddygiad proffesiynol sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at wella'r ysgol a chydweithio effeithiol rhwng staff ac â darparwyr eraill
- yn sicrhau bod staff ar bob lefel yn deall ac yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau
- yn rheoli perfformiad staff er mwyn gwella eu harfer, ac yn mynd i'r afael â materion yn ymwneud â thanberfformio'n gadarn ac yn uniongyrchol, yn ôl yr angen

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda mae arweinwyr a rheolwyr yn gweithredu'n unol â'r **egwyddor datblygu cynaliadwy**, a pha mor dda maent yn gwneud penderfyniadau, er enghraifft yn ymwneud â gwariant, ac yn pennu blaenoriaethau ar gyfer gwella sy'n cydbwyso anghenion uniongyrchol, tymor byr ag anghenion tymor hir disgyblion, a'u cymuned leol. Dylai arolygwyr werthuso a yw'r **adnoddau ariannol**, gan gynnwys y grant datblygu disgyblion, yn cael eu rheoli'n effeithiol. Dylai arolygwyr nodi yn eu tystiolaeth fel mater o ffaith pa bryd bynnag y bydd diffyg neu falans cadarnhaol yn fwy na 5% o gyfanswm incwm yr ysgol mewn dwy neu ragor o'r tair blynedd diwethaf.

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda mae arweinwyr yn mynd i'r afael â **blaenoriaethau cenedlaethol a lleol**, fel cadw disgyblion yn ddiogel, lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol, paratoi i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru, a gwella datblygiad medrau llythrennedd (gan gynnwys sefydlu diwylliant darllen), rhifedd a medrau digidol disgyblion. Dylai arolygwyr werthuso i ba raddau mae arweinwyr a rheolwyr yn cynllunio cyfleoedd pwrpasol yn strategol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau Cymraeg mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol, a rhoi'r cynlluniau hyn ar waith yn effeithiol.

Dylai arolygwyr werthuso pa mor dda mae **llywodraethwyr** yn deall ac yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau. Wrth werthuso effeithiolrwydd llywodraethu, dylai arolygwyr ystyried i ba raddau mae'r corff llywodraethol:

- yn cyflawni ei rwymedigaethau statudol ac yn rhoi ystyriaeth iawn i ddeddfwriaeth ac arweiniad perthnasol, gan gynnwys mewn perthynas â'r ffordd y mae'n rheoli cwynion ac apeliadau gan rieni
- yn cyfrannu'n bwrpasol at bennu blaenoriaethau strategol yr ysgol
- yn meddu ar ddealltwriaeth glir o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu
- yn darparu cydbwysedd priodol o gymorth a her, ac yn dwyn uwch arweinwyr i gyfrif ar ran y gymuned leol yn ei rôl fel 'cyfaill beirniadol'

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda mae'r corff llywodraethol yn sicrhau bod y bwyd a diod a ddarperir gan yr ysgol yn cydymffurfio â deddfwriaeth. Dylent **adrodd** ar b'un a oes gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo **bwyta ac yfed yn iach**.

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda mae arweinwyr yr ysgol yn meithrin **perthynas gynhyrchiol â** theuluoedd a chymuned ehangach yr ysgol i wella cyfleoedd pob disgybl mewn bywyd. Mae hyn yn cynnwys cael llinellau cyfathrebu effeithiol er mwyn iddynt allu codi unrhyw faterion a all effeithio ar ddysgu a lles disgyblion. Er enghraifft, gallai'r ysgol ddarparu gwybodaeth am y cwricwlwm, arweiniad ar fanteision presenoldeb rheolaidd disgyblion, gweithdai i rieni ar sut i helpu eu plant i ddatblygu eu medrau darllen, a chymorth i rieni disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Dylai arolygwyr ystyried i ba raddau mae'r ysgol yn helpu'n weithredol i ddatblygu gallu teuluoedd i gefnogi eu plant eu hunain. Hefyd, dylent ystyried y ffordd y mae'r ysgol yn cydweithio ag ystod o bartneriaid i sicrhau bod y cymorth ar gyfer dysgu a lles yn diwallu anghenion pob disgybl.

### 5.2 Prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant

Dylai arolygwyr werthuso pa mor gywir y mae arweinwyr a rheolwyr yn adnabod cryfderau a gwendidau'r ysgol. Dylent ganolbwyntio ar effeithiolrwydd ac effaith hunanwerthusiad a phrosesau gwella'r ysgol, yn hytrach nag ar ansawdd dogfennaeth. Wrth werthuso'r prosesau hyn, dylai arolygwyr ystyried pa mor dda mae'r ysgol neu'r UCD:

- yn cynnwys ei holl staff, yn ogystal ag ystod o bartneriaid, gan gynnwys disgyblion a rhieni
- yn casglu ac yn dadansoddi tystiolaeth uniongyrchol o safonau a darpariaeth
- yn cynnal ffocws clir ar effaith ei darpariaeth ar gynnydd a lles disgyblion
- yn defnyddio canfyddiadau hunanwerthuso, ynghyd â gwybodaeth arall, i lunio blaenoriaethau a chamau perthnasol ar gyfer gwella
- yn pennu amserlenni penodol a realistig ac yn dyrannu cyfrifoldeb priodol am sicrhau gwelliant
- yn cefnogi blaenoriaethau gwella drwy ddyrannu adnoddau'n briodol
- yn sicrhau bod penderfyniadau gwariant a chynllunio ariannol yn cysylltu'n briodol â'i blaenoriaethau gwella strategol, gan gynnwys defnydd effeithiol o'r grant datblygu disgyblion
- yn monitro ac yn gwerthuso cynnydd yn erbyn ei blaenoriaethau ac yn addasu ei dulliau, yn ôl yr angen
- yn defnyddio dulliau gwerthusol i sicrhau arweinwyr a llywodraethwyr bod polisïau a gweithdrefnau allweddol yn cael eu gweithredu'n effeithiol, er enghraifft yn ymwneud â diogelu

Dylai arolygwyr ystyried i ba raddau mae arweinwyr a rheolwyr yn **cynnal ansawdd uchel neu'n gwella agweddau gwan** ar ddarpariaeth. Dylent ystyried pa mor dda mae arweinwyr a rheolwyr yn atal problemau rhag digwydd yn y lle cyntaf, a pha mor gyflym y maent yn cymryd unrhyw gamau adferol.

Dylai arolygwyr ymchwilio i **hanes yr ysgol o wneud a chynnal gwelliannau**, ac i ba raddau y maent wedi arwain at effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles disgyblion. Lle y bo'n briodol, dylai arolygwyr ystyried pa mor dda mae'r ysgol wedi ymateb i argymhellion o arolygiadau blaenorol Estyn neu gan bartneriaid strategol, a ph'un a yw camau gweithredu'r ysgol wedi arwain at welliannau.

## 5.3 Dysgu proffesiynol

Dylai arolygwyr werthuso i ba raddau mae arweinwyr wedi creu diwylliant ac ethos cadarnhaol i hybu a chefnogi dysgu proffesiynol yr holl staff. Dylent ystyried a yw dysgu proffesiynol i wella addysgu a datblygu'r Cwricwlwm i Gymru wedi cael effaith gadarnhaol ar ddatblygu darpariaeth yn yr ystafell ddosbarth sy'n bodloni anghenion dysgwyr.

Wrth werthuso **dysgu proffesiynol**, dylai arolygwyr ystyried pa mor dda mae'r ysgol neu'r UCD:

- yn cysylltu dysgu proffesiynol yn glir â chanfyddiadau hunanwerthuso a blaenoriaethau gwella
- yn cynnwys yr holl staff mewn gweithgareddau pwrpasol sy'n cefnogi datblygiad eu gwybodaeth broffesiynol, dealltwriaeth a'u medrau addysgu ac arweinyddiaeth
- yn sicrhau bod dysgu proffesiynol yn annog arloesedd ac yn canolbwyntio'n gyson ar sicrhau gwelliannau o ran cynnydd a lles disgyblion
- yn nodi arfer orau yn yr ysgol ac yn sicrhau y gall aelodau staff eraill elwa arni
- yn cydweithio ag ysgolion eraill, darparwyr addysg gychwynnol i athrawon a darparwyr dysgu proffesiynol i rannu a datblygu arfer broffesiynol
- yn monitro effaith dysgu proffesiynol ar effeithiolrwydd addysgu ac arweinyddiaeth, ac ar gynnydd a lles disgyblion

Pan fydd yr ysgol yn ysgol arweiniol ar gyfer addysg gychwynnol i athrawon, bydd arolygwyr yn adrodd ar effaith y gwaith hwn ar ymagweddau'r ysgol tuag at ddysgu proffesiynol.